Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yn**

**Cyngor Sir Gaerfyrddin**
**Neuadd y Sir**
**Caerfyrddin**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA31 1JP**

**Mawrth 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Sir Gaerfyrddin wedi'i lleoli yn ne-orllewin Cymru. Mae Sir Benfro yn ffinio â hi i'r gorllewin, Ceredigion i'r gogledd, Powys i'r dwyrain ac Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i'r de ddwyrain. Cyfanswm y boblogaeth yw 180,717.

Yn Sir Gaerfyrddin, dywed 46.5% o bobl dros dair oed eu bod yn gallu siarad Cymraeg o gymharu â chyfartaledd Cymru sef 24.8%.

Y gyfradd cyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin oedd 66.3% o gymharu â chyfartaledd Cymru sef 66.4%. Roedd 24% o blant yn byw mewn aelwydydd lle nad oedd neb yn gweithio. O'r boblogaeth weithio yn Sir Gaerfyrddin, nid oes gan 13.2% unrhyw gymwysterau, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru sef 12.1%.

Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 17.5%, sy'n is na'r 19.7% yn genedlaethol. Y lefel hon o gymhwyster yw'r seithfed uchaf yng Nghymru (CYBLD 2011). Dim ond 5 o'r 112 o ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin sydd bellach yn y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ar 31 Mawrth 2011, roedd gan Sir Gaerfyrddin 260 o blant a oedd yn derbyn gofal gan yr awdurdod. Roedd 155 o blant ar y gofrestr Diogelu Plant.

Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 2.5% o'r boblogaeth, sy'n is na chyfartaledd Cymru sef 3.6%.

### Cyd-destun ariannol

Roedd Asesiad Gwariant Safonol (AGS) Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cyngor Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2011-12 yn £1,744 y pen y boblogaeth, sydd ychydig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.

Yn 2011-12, fe wnaeth yr awdurdod bennu ei gyllideb addysg, heb gynnwys grantiau, yn £132.2 miliwn. Roedd hyn ychydig islaw'r elfen addysg yn yr AGS ac mae'n cynrychioli £4,938 y disgybl. Mae hyn uwchlaw cyfartaledd Cymru sef £4,770 y disgybl.

Roedd cyllideb addysg net yr awdurdod ar gyfer 2011-12 tua 1.5% yn is nag yn 2010-11. Mae'r awdurdod yn rhoi blaenoriaeth uchel i wariant ar ysgolion yn ei gyllideb addysg. Er gwaethaf y gostyngiad yn y gyllideb addysg gyffredinol, cynyddodd y cyllidebau dirprwyedig i ysgolion cynradd ac uwchradd tua 2% yn 2011-12. Mae lefel y cyllidebau dirprwyedig fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ac uwchradd bumed uchaf ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn dangos bod yr awdurdod yn dirprwyo 78.5% o'i holl wariant ar ysgolion i ysgolion. Mae'r lefel hon o ddirprwyo wedi cynyddu er 2010-11 ac mae ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru sef 76.2%. Mae lefel y cyllid a ddirprwyir i ysgolion i ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wedi cynyddu hefyd ac mae uwchlaw'r cyfartaledd.

Mae'r awdurdod wedi buddsoddi dros £105 miliwn er 2004-05 yn gwella'i adeiladau ysgol ac mae buddsoddi mawr pellach yn yr arfaeth.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol: Da**

**Mae perfformiad presennol yn dda oherwydd:**

- mae perfformiad ym mhob cyfnod allweddol wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf;
- mae canran y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster a nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) ymhlith yr isaf yng Nghymru;
- ers tair blynedd, mae'r awdurdod wedi bodloni'r rhan fwyaf o feincnodau cyfnod allweddol 4 Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad ar sail yr hawl i brydau ysgol am ddim;
- mae'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant cymdeithasol yn dda;
- mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno'i raglen Moderneiddio Addysg; ac
- mae uwch arweinwyr yn deall effaith adfywio ehangach a gofal cymdeithasol ar ddeilliannau addysgol yn glir.

**Fodd bynnag:**

- mae cyfran yr ysgolion y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt yn dilyn arolygiad yn uchel o gymharu ag awdurdodau eraill;
- o gymharu ag ysgolion tebyg yn ôl y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae presenoldeb islaw'r cyfartaledd mewn ysgolion cynradd ac ymhell islaw'r cyfartaledd mewn ysgolion uwchradd; ac
- nid yw rhywfaint o ddarpariaeth cyfnod allweddol 4 yr awdurdod y tu allan i ysgolion wedi cael ei gofrestru'n briodol gyda Llywodraeth Cymru fel Uned Cyfeirio Disgyblion.

**Gallu i wella: Da**

**Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:**

- mae cynlluniau allweddol yn alinio'n dda ar bob lefel ac mae uwch arweinwyr yn gweithio mewn modd soffistigedig gydag ystod o bartneriaid strategol ar draws gwasanaethau cyhoeddus i bennu blaenoriaethau lefel uchel gyda'i gilydd;
- mae gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid ymrwymiad clir i ddysgwyr ac i ddatblygu diwylliant dysgu yn y sir;
- mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu'r rhwydweithiau 14-19 oed ar y cyd yn arwain y sector;
- mae gan yr awdurdod hanes o nodi ac ymyrryd pan fo rhwystrau rhag gweithio effeithiol yn rhwystro cynnydd;
- mae uwch arweinwyr wedi gwneud penderfyniadau anodd ac maent yn ymateb yn rhagweithiol iddynt;
- mae'r awdurdod yn dadansoddi data a thystiolaeth uniongyrchol yn dda i wneud

arfarniadau cywir o ansawdd ac effaith gwasanaethau;
- mae'r awdurdod wedi mynd i'r afael yn dda â'r holl argymhellion o arolygiadau blaenorol Estyn o wasanaethau addysg a chymorth ieuenctid;
- mae gan yr awdurdod hanes da o reoli ei gyllideb addysg yn effeithiol a gwella effeithlonrwydd; ac
- mae craffu wedi archwilio agweddau anodd ar waith yr awdurdod yn llwyddiannus, ac mae wedi llywio penderfyniadau gan y weithrediaeth yn dda.

**Fodd bynnag,**

- nid yw'r awdurdod wedi dadansoddi'r manteision sy'n deillio o'i fuddsoddiad mewn gwella cyflwr, addasrwydd ac effeithlonrwydd ei ysgolion yn ddigon systematig.

## Argymhellion

Er mwyn parhau i wella, mae angen i Gyngor Sir Gaerfyrddin:

A1 sicrhau bod cyfran yr ysgolion y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt o ganlyniad i arolygu yn gostwng;

A2 gwella presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd;

A3 gweithio'n fwy effeithiol gyda SNAP Cymru i helpu rhieni i ddeall a chael at wasanaethau a allai helpu eu plant; a

A4 sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth ar gyfer disgyblion nad ydynt yn mynd i'r ysgol yn cael ei chofrestru'n briodol fel Uned Cyfeirio Disgyblion.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Cyngor Sir Gaerfyrddin yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 70 diwrnod (50 diwrnod gwaith) o gael yr adroddiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

### Safonau: Da

Yn 2011, fe wnaeth perfformiad yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 wella o gymharu ag awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru er bod perfformiad yn arafach yng nghyfnod allweddol 3. Yng nghyfnod allweddol 4, roedd perfformiad yn dda o gymharu ag awdurdodau eraill yn y rhan fwyaf o ddangosyddion.

O gymharu ag ysgolion tebyg yn ôl y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad uwchlaw'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 1 a 2. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn dda yn y dangosyddion hynny sy'n ymwneud â'r Gymraeg neu'r Saesneg ond mae islaw'r cyfartaledd ar gyfer trothwyon lefel 1 a 2.

Am y tair blynedd diwethaf, mae Sir Gaerfyrddin wedi bodloni'r rhan fwyaf o feincnodau cyfnod allweddol 4 Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad yn ôl yr hawl i brydau ysgol am ddim, er nad yw wedi cyflawni meincnod cyfnod allweddol 3.

At ei gilydd, mae cynnydd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn dda.

Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn darllen yn y ddwy iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 wedi gwella ar gyfradd uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru dros y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn Cymraeg mamiaith yn dda yng nghyfnodau allweddol 1 a 3 ac islaw'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 2 a 4.

At ei gilydd, mae dysgwyr agored i niwed a'r dysgwyr hynny sy'n wynebu risg o dangyflawni yn cyflawni'n dda. Mae'r dysgwyr hyn wedi ymateb yn dda i ymyriadau targedig sydd wedi effeithio ar safonau lles ac ar ddeiliannau o ganlyniad. Er enghraifft, mae canran y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster wedi gostwng yn sylweddol. Yn y ddau ddangosydd hyn, mae'r awdurdod ymhlith y gorau yng Nghymru. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad plant sy'n derbyn gofal a dysgwyr o deuluoedd sy'n deithwyr yn dda.

Mae dysgwyr mewn darpariaeth amgen ar gyfer y rhai nad ydynt yn mynd i'r ysgol, fel Mynediad Ieuenctid a SMART, a'r rhai sy'n cael cymorth gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, yn ennill cymwysterau perthnasol defnyddiol. Mae llawer o'r dysgwyr hyn yn datblygu medrau a phrofiadau sy'n eu helpu i barhau mewn addysg a hyfforddiant. Yn ogystal, mae canran da o ddysgwyr yn ennill achrediad neu gydnabyddiaeth anffurfiol ar gyfer cymryd rhan yn y Gwasanaeth Ieuenctid ac mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid ehangach.

### Lles: Digonol

Mae dysgwyr yn cymryd rhan yn dda mewn ystod gynhwysfawr o weithgareddau sy'n cyfrannu tuag at wella'u lles. Mae safonau lles yn dda ym mron pob un o'r ysgolion a arolygwyd yn y cylch presennol. Mae disgyblion yn mwynhau amgylcheddau hapus,

diogel a phwrpasol. Mae safonau ymddygiad yn dda ac mae plant a phobl ifanc yn datblygu eu hagweddau, eu credoau, eu gwybodaeth a'u hymddygiad yn dda.

Mae dysgwyr yn ymroi'n dda i ddarpariaeth sy'n eu cefnogi i ddilyn ffyrdd iach o fyw. Maent yn ennill ymwybyddiaeth o agweddau fel camddefnyddio sylweddau a chânt gydnabyddiaeth am y dysgu sy'n cael ei gyflawni. Mae bron pob un o'r dysgwyr sy'n ymwneud â'r Tîm Iechyd Ieuenctid, y rhaglenni datblygu llythrennedd cymdeithasol ac emosiynol a'r gwasanaeth cwnsela sy'n gweithio yn yr ysgolion, yn adrodd am effaith gadarnhaol ar eu bywyd a gwnânt enillion sylweddol o ran hyder ac ymwybyddiaeth bersonol ac emosiynol. Mae'r dysgwyr hyn yn ymateb yn dda i ymyriadau unigol a gwnânt gynnydd mewn agweddau, ymddygiad a chyrhaeddiad addysgol.

Mae lefelau cyfranogi mewn rhaglenni datblygu chwaraeon cenedlaethol a gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol yn dda. Mae canran y dysgwyr sy'n cymryd rhan wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf; yn benodol, targedwyd merched ac mae'r nifer sy'n cymryd rhan wedi cynyddu. Mae effaith y gweithgareddau hyn ar ffyrdd iach o fyw'n cael ei dadansoddi'n dda ac mae dysgwyr yn adrodd am effaith gadarnhaol ar eu bywyd.

Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn datblygu dogfennau strategol ac yn dylanwadu arnynt. Hefyd, maent yn datblygu fersiynau penodol i gynorthwyo gallu plant a phobl ifanc eraill i gael atynt. Mae barn dysgwyr yn llywio penderfyniadau mewn rhai meysydd polisi ac mae adroddiadau arolygu ysgolion yn dangos bod dysgwyr yn ymwneud yn dda â phenderfyniadau am eu bywydau yn yr ysgol.

Nid yw presenoldeb wedi gwella'n ddigon cyflym mewn ysgolion cynradd nac uwchradd. O gymharu ag ysgolion tebyg yn ôl y meincnodau prydau ysgol am ddim yn 2011, mae gormod o ysgolion cynradd yn y 25% isaf ac mae dros hanner islaw'r cyfartaledd. Mewn ysgolion uwchradd, mae bron tri chwarter o ysgolion islaw'r cyfartaledd ac mae bron hanner yn y 25% isaf. Mae data heb ei wirio ar gyfer y flwyddyn ysgol bresennol yn awgrymu bod gwelliant mewn presenoldeb ar lefelau uwchradd a chynradd. Mae gwaharddiadau wedi gwella er bod nifer y diwrnodau sy'n cael eu colli i waharddiadau cyfnod penodol hwy yn rhy uchel o gymharu ag awdurdodau eraill. O ganlyniad, mae nifer bychan iawn o ddysgwyr allan o'r ysgol am gyfnod rhy hir.

Yn 2010, fe wnaeth canran y dysgwyr a oedd yn parhau mewn addysg amser llawn, ôl-16 oed gynyddu, ac mae ymhlith y gorau yng Nghymru. Lefel y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yw'r trydydd isaf yng Nghymru. Mae pobl ifanc yn elwa o gymryd rhan mewn ystod o wasanaethau ieuenctid ac mae canran y dysgwyr sy'n cael cydnabyddiaeth am eu gwaith uwchlaw cyfartaledd Cymru.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Digonol**

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r awdurdod wedi gweithio'n dda i integreiddio gwasanaethau cymorth perthnasol. Mae hyn wedi cryfhau lefel y cymorth a her i

ysgolion. O ganlyniad, mae tueddiadau ym mherfformiad ysgolion cynradd wedi gwella’n raddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae perfformiad yn dda yng nghyfnod allweddol 4.

Mae’r fframwaith herio sy’n cael ei ddefnyddio ar draws y consortiwm lleol o awdurdodau yn defnyddio meini prawf clir i gategoreiddio ysgolion yn briodol mewn perthynas â’u perfformiad a’u gallu i wella. Mae’r Cytundeb Partneriaeth yn sicrhau bod ysgolion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o’r broses hon ac o lefel y cymorth y gallant ei disgwyl er mwyn ysgogi gwelliant. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae’r meini prawf yn cael eu defnyddio’n briodol i dargedu ymyrraeth strategol. Fodd bynnag, mae cyfran yr ysgolion sydd wedi eu hadnabod fel rhai y mae angen mesurau arbennig, gwelliant sylweddol neu fonitro dilynol arnynt o ganlyniad i arolygu yn parhau’n rhy uchel o gymharu ag awdurdodau eraill. Yn ddiweddar, mae’r awdurdod wedi defnyddio pwerau priodol i wella ysgolion ond, yn gyffredinol, nid yw wedi gwneud hyn yn ddigon cyflym.

At ei gilydd, mae swyddogion yn dadansoddi data perfformiad yn dda ac yn rhoi cymorth da i weithdrefnau hunanarfarnu ysgolion. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae swyddogion yn llunio adroddiadau perfformiad ar ysgolion sy’n fanwl, gyda lefel briodol o her. Mae adolygiadau ysgol gyfan, sy’n cael eu cynnal ar y cyd gan swyddogion yr awdurdod lleol ac uwch dimau rheoli ysgolion, wedi gwella gallu ar lefel ysgol ac wedi helpu i ddatblygu’r cysyniad o arweinyddiaeth ar y cyd.

Sefydlwyd strategaethau effeithiol i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol sy’n canolbwyntio ar wella safonau mewn meysydd blaenoriaeth. Er enghraifft, mae cymorth ar gyfer llythrennedd yn dda gyda phwyslais cryf ar wella medrau darllen. Gwnaed cynnydd da yn cefnogi ysgolion a darparwyr eraill i wella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth i bobl ifanc 14 i 19 oed.

Mae’r awdurdod yn darparu cymorth da i arweinwyr ysgol a llywodraethwyr. Mae ystod dda o gyfleoedd datblygu ar gyfer arweinwyr ysgol yn cynnwys rhaglenni achrededig ar gyfer rheolwyr canol a rhaglenni sefydlu effeithiol i benaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro. Mae’r hyfforddiant a ddarperir i lywodraethwyr o ansawdd da ac mae presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi wedi gwella. Mae’r awdurdod wedi rhoi pwyslais priodol ar gefnogi cyrff llywodraethol i ddadansoddi data perfformiad yn gadarnach. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o gyrff llywodraethol ddealltwriaeth dda o sut mae eu hysgol yn perfformio mewn perthynas ag ysgolion tebyg eraill.

**Cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol: Da**

Mae’r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant yn dda. Mae llawer o’r disgyblion sydd â datganiadau, ac eraill y nodwyd bod anghenion dysgu ychwanegol ganddynt, yn cyflawni’n dda ac maent mewn ysgolion prif ffrwd. Mae ymgynghori datblygedig gydag ysgolion yn galluogi’r awdurdod i ddirprwyo’r rhan fwyaf o’i adnoddau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Mae’n monitro effaith yr adnoddau hyn ar gynnydd disgyblion yn effeithiol.

Mae gwybodaeth glir ar gael am y gwasanaethau cynhwysfawr sydd ar gael i gefnogi rhieni a gofalwyr, ond nid yw’n hawdd cael at y wybodaeth hon. Nid yw’r awdurdod yn gweithio’n ddigon agos gyda SNAP Cymru, y gwasanaeth partneriaeth rhieni sy’n helpu rhieni plant sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anabledd i ddeall a chael

at wasanaethau a allai helpu eu plant.

Mae gan yr awdurdod y nifer ail uchaf o apeliadau i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae'n gweithio i leihau canran y disgyblion sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig, sef y trydydd uchaf yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cynnal cynllun peilot o waith arloesol i Lywodraeth Cymru o asesu anghenion ychwanegol disgyblion a darparu ar eu cyfer heb fynd drwy asesu statudol.

Mae cynlluniau datblygu unigol yn galluogi cynllunio a monitro cydlynol. Caiff y rhain eu paratoi'n brydlon a'u monitro o leiaf ddwywaith y flwyddyn i wneud yn siŵr bod disgyblion yn cyrraedd y targedau cytûn. Mae dangosyddion cynnar yn awgrymu bod y gwaith hwn yn hynod effeithiol wrth gefnogi datblygiad cyflawniadau disgyblion. Yn achos disgyblion sydd ag anghenion cymhleth, mae asesu amlasiantaeth trylwyr yn arwain at gynllun datblygu unigol cynhwysfawr, sy'n disgrifio'r ddarpariaeth gan ystod o asiantaethau. Mae'r prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer monitro effaith y cynlluniau hyn yn briodol.

Mae ysgolion yn cael hyfforddiant da i ddatblygu eu harbenigedd wrth fodloni ystod o anghenion. Mae hyfforddiant priodol yn helpu staff i ddeall anghenion ychwanegol disgyblion er mwyn cefnogi cynllunio datblygu unigol.

Mae swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu gwybodaeth yn dda. Maent yn gwneud defnydd da o fapio darpariaeth i ddwyn ysgolion i gyfrif ynghylch cyflawniadau disgyblion.

**Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles: Da**

Mae'r awdurdod yn gweithio'n dda i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles plant a phobl ifanc. Mae'r trefniadau ar gyfer cymorth ymddygiad yn dda. Mae'r awdurdod yn rhoi cymorth cadarn i ysgolion a rhieni i gynyddu eu gallu a'u harbenigedd i wella ymddygiad a sicrhau deilliannau da i blant a phobl ifanc.

Mae'r awdurdod yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth y tu allan i ysgolion i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mae hyn yn helpu dysgwyr agored i niwed, fel plant sy'n derbyn gofal, pobl ifanc sy'n wynebu'r risg o adael addysg a phlant o deuluoedd sy'n deithwyr, i gyflawni deilliannau da erbyn diwedd eu gyrfaoedd ysgol. Maent yn ennill ystod o gymwysterau, yn gwella'u hiechyd ac yn mynd ymlaen i ddysgu pellach a chyflogaeth. Fodd bynnag, mae agwedd ar ddarpariaeth yr awdurdod yn y maes hwn heb gael ei gofrestru'n briodol gyda Llywodraeth Cymru fel Uned Cyfeirio Disgyblion.

Mae'r awdurdod wedi gwella'n sylweddol ei drefniadau ar gyfer helpu ysgolion a staff o asiantaethau gwahanol weithio gyda'i gilydd i helpu teuluoedd wella gallu plant a phobl ifanc i ddysgu. Mae hyn yn cynnwys mentora i rieni, helpu gyda materion yn ymwneud â thai, cyngor ynghylch budd-daliadau a gwella iechyd a hunan-barch plant. Yn gyffredinol, mae hyn yn elfen gref o waith yr awdurdod. Fodd bynnag, nid yw'r strategaethau i wella presenoldeb wedi cael digon o effaith eto.

Mae'r awdurdod wedi aildrefnu sut mae'n cyflwyno'i wasanaethau er mwyn helpu ysgolion i gymryd mwy o gyfrifoldeb am wella presenoldeb ac i wella'r rhai sy'n absennol yn gyson, sydd ag anghenion cymhleth. O ganlyniad, mae ysgolion yn

gwella cyfraddau presenoldeb cyffredinol trwy leihau nifer yr absenoldebau awdurdodedig.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth o bartneriaid i gyflwyno ystod eang o wasanaethau o ansawdd da er mwyn helpu pobl ifanc i wella'u cyflawniad a'u lles. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys ymyriadau targedig gyda rhieni ifanc, cwnsela yn yr ysgol a phrosiectau i wella iechyd a mynd i'r afael â hiliaeth. Hefyd, maent yn cynnwys gwaith sy'n gwella cyflawniadau pobl ifanc fel Gwobr Dug Caeredin.

Mae gan yr awdurdod bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu. Yn ddiweddar, mae wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio arferion diogelu mewn ysgolion a chynhaliodd adolygiadau mewn traean o'i ysgolion. Mae'r awdurdod yn bwriadu cwblhau'r adolygiadau hyn erbyn diwedd y flwyddyn. Lle mae'r adolygiadau yn gweld diffygion, mae'r awdurdod yn dosbarthu tîm o staff i'r ysgol i sicrhau gwelliannau yn gyflym.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Da**

Mae moderneiddio'r ystâd ysgolion wedi bod yn flaenoriaeth gorfforaethol allweddol i'r awdurdod ers sawl blwyddyn ac mae'n parhau felly. Mae'r awdurdod wedi buddsoddi £128.5 miliwn yn ei adeiladau ysgol er 2001, gan gael gwared ar leoedd gwag a gostwng nifer yr ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod wedi dadansoddi'r manteision sy'n deillio o'i fuddsoddiad o safbwynt gwella cyflwr, addasrwydd ac effeithlonrwydd ei ysgolion yn ddigon systematig.

Er gwaethaf y buddsoddiad sylweddol hwn, mae data'r awdurdod yn dangos bod ychydig dros hanner y disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeiladau y mae angen buddsoddiad pellach arnynt. Mae nifer y lleoedd gwag gormodol mewn ysgolion cynradd yn parhau ymhell uwchlaw'r cyfartaledd, ond mewn ysgolion uwchradd, mae nifer y lleoedd gwag yn cymharu'n fwy ffafriol ag awdurdodau eraill. Fodd bynnag, mae niferoedd disgyblion mewn ysgolion cynradd bellach yn dechrau codi ac mae rhaglen bellach wedi'i hariannu o ryw £170 miliwn ar waith hyd at 2020, ar sail dadansoddiad trylwyr o angen. Bydd y cynlluniau hyn yn cael gwared ar fwy o leoedd o'r system.

Mae'r awdurdod yn rheoli derbyniadau i'w ysgolion yn dda, gan alluogi bron pob disgybl i gael lle yn eu hysgol dewis cyntaf. Mae cynlluniau clir a chytûn ar waith i ymateb i'r cynnydd yn y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Llanelli.

Mae ystod briodol o ddarpariaeth dysgu a chwarae Cyfnod Sylfaen y blynyddoedd cynnar sy'n bodloni anghenion plant a'u teuluoedd. Mae'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol â'r sector gwirfoddol i gynllunio a chyflwyno darpariaeth, gan ddefnyddio lleoedd gwag gormodol mewn ysgolion cynradd lle bo gwneud hynny yn briodol. Mae'r awdurdod yn monitro'r safonau mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir yn dda ac mae'n rhoi cymorth wedi'i dargedu'n dda i wella ansawdd y dysgu a ddarperir.

Mae'r awdurdod yn cydlynu gwasanaethau cymorth ieuenctid yn effeithiol, ar sail dadansoddiad trylwyr o angen. O ganlyniad, gall pobl ifanc gael at ystod o

wasanaethau cymorth priodol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid ymrwymiad clir i ddysgwyr ac i ddatblygu diwylliant dysgu yn y sir. Mae gan uwch arweinwyr ddyheadau uchel iawn ar gyfer plant a phobl ifanc ac maent yn deall effaith adfywio ehangach a gofal cymdeithasol ar ddeilliannau addysgol yn glir. Mae strwythurau gwasanaeth a chynllunio adnoddau yn cefnogi cyflwyno'r blaenoriaethau ar y cyd sydd wedi'u hymgorffori yn y Strategaeth Gymunedol Integredig ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn effeithiol.

Mae'r strategaeth yn amlygu'r weledigaeth o alluogi 'pobl i fyw bywydau iach a bodlon trwy weithio ynghyd i adeiladu cymunedau cryf, dwyieithog a chynaliadwy'. Mae arweinwyr uwch yn gweithio mewn modd soffistigedig gydag ystod o bartneriaid strategol ar draws gwasanaethau cyhoeddus i bennu blaenoriaethau lefel uchel gyda'i gilydd ac i gyflawni eu gweledigaeth ar gyfer trigolion Sir Gaerfyrddin. Mae uwch arweinwyr wedi rhoi strwythurau ar waith i lywio cydweithredu ac i arwain trwy esiampl. Mae'r defnydd helaeth o secondiadau, penodiadau ar y cyd a mentrau cydweithredol yn golygu bod staff ar bob lefel yn adnabod ac yn deall eu cryfderau ei gilydd gan weithio'n hyderus o fewn eu harbenigeddau eu hunain.

Mae gan yr awdurdod hanes o nodi ac ymyrryd pan fydd rhwystrau rhag gweithio effeithiol yn rhwystro cynnydd. Mae'r ymateb i benderfyniadau anodd yn ymateb rhagweithiol. Lle bo'n briodol, mae'r Arweinydd, aelodau etholedig, y Prif Weithredwr neu uwch reolwyr eraill yn ymyrryd yn effeithiol i oresgyn rhwystrau. Yn ogystal, mae'r Grŵp Agor Drysau Adrannol Uwch yn mynd i'r afael â rhwystrau a nodwyd rhag gweithio effeithiol yn y gyfarwyddiaeth. Mae arweiniad systemau a dirprwyo adnoddau yn cefnogi'r ymdrechion i roi'r dysgwr yn gyntaf. Caiff arweinyddiaeth ei rhannu a gall staff gweithredol wneud penderfyniadau yn gyflym i gefnogi dysgwyr a'u teuluoedd fel eu bod yn cynnal eu diddordeb mewn dysgu.

Mae grwpiau gorchwyl a gorffen ar gyfer craffu wedi archwilio agweddau anodd ar waith yr awdurdod yn llwyddiannus, ac maent wedi llywio gwaith gwneud penderfyniadau yn dda. Mae aelodau etholedig wedi datblygu eu dealltwriaeth a'u harbenigedd trwy weithio mewn grwpiau bychain i ddadansoddi agweddau penodol ar addysg. Hefyd, mae'r broses wedi sicrhau cefnogaeth drawsbleidiol i benderfyniadau pwysig ac anodd mewn meysydd fel ail-drefnu ysgolion. Yn ogystal, mae'r rhaglen barhaus o ymweliadau'r pwyllgor craffu yn gwella lefel ac ansawdd yr her i ysgolion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r awdurdod yn cynnal ystod eang o weithgareddau hunanarfarnu sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o agweddau ar waith y gwasanaeth plant a phobl ifanc. Yn gyffredinol, mae'n dadansoddi data a thystiolaeth uniongyrchol yn dda i wneud arfarniadau cywir o ansawdd ac effaith gwasanaethau. Fodd bynnag, mae rhai

anghysondebau wrth ddefnyddio data wedi arwain at arfarniadau rhy hael o gynnydd yr awdurdod mewn rhai meysydd o'i waith. Hefyd, mae'r trefniadau yn nodi'n glir y meysydd i'w gwella ac maent yn helpu sicrhau bod cynnydd yn ôl cynlluniau strategol a chynlluniau eraill yn cael ei adolygu'n effeithiol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu a luniwyd ar gyfer yr arolygiad wedi'i strwythuro'n dda ac mae'n cysylltu arfarniadau â thystiolaeth ategol yn dda. Fodd bynnag, mae rhai arfarniadau heb gael eu cynnwys yn yr adroddiad. O ganlyniad, nid yw'n adlewyrchu holl ystod, cwmpas ac effaith gwaith gwasanaethau addysg yr awdurdod yn gywir.

Mae'r awdurdod yn ymgysylltu'n dda â phartneriaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill yn ei brosesau arfarnu ac wrth gynllunio ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae barn yr holl grwpiau disgyblion presennol yn ysgolion yr ardal wedi dylanwadu ar ddatblygiad prosiect Dinefwr yn rhaglen Moderneiddio Addysg yr awdurdod.

Mae gan yr awdurdod drefniadau rheoli perfformiad effeithiol sy'n sicrhau gwelliannau. Hefyd, maent yn helpu sicrhau bod amcanion ar gyfer swyddogion unigol yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau gweithredol a strategol. Mae cynlluniau allweddol yn alinio'n dda ar bob lefel ac yn helpu aelodau etholedig i ddeall a defnyddio gwybodaeth am berfformiad yn effeithiol. Mae'r cylch rheoli perfformiad, sydd wedi'i ddiffinio'n dda, yn caniatáu i'r aelodau etholedig fonitro cynnydd cynlluniau gwella a chymryd camau unioni yn amserol.

Mae gweithio cydweithredol ar draws awdurdodau lleol yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth ac mae hwn yn datblygu ar gyflymder da. Mae uwch swyddogion wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu strategaeth gwella ysgolion integredig, ranbarthol.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n rhagweithiol i ddatblygu ystod dda o gymunedau dysgu proffesiynol sy'n cael effaith uniongyrchol ar ansawdd darpariaeth ac ar wella deilliannau. Mae'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yn cael ei ddyrannu i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i ddatblygu cymunedau dysgu a gweithio strategol, cydweithredol arall. Mae hyn wedi'i seilio'n briodol ar flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Mae'r awdurdod wedi mynd i'r afael yn dda â'r holl argymhellion o arolygiadau blaenorol Estyn o addysg a gwasanaethau cymorth ieuenctid.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae uwch reolwyr yn dangos ymrwymiad sylweddol at ddatblygu partneriaethau strategol ar draws pob agwedd ar arfer yr awdurdod. Trwy waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, mae gan yr awdurdod a'i bartneriaid berchenogaeth ar y cyd o flaenoriaethau a deilliannau. Caiff y nodau hyn eu cyfleu'n glir yn Strategaeth Gymunedol Integredig yr awdurdod.

Mae'r awdurdod yn gwneud defnydd da iawn o'i bartneriaethau i gyflwyno gwasanaethau sy'n gwella deilliannau a lles i blant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaethau effeithiol rhwng yr awdurdod, yr heddlu, y bwrdd iechyd lleol, asiantaethau gwirfoddol, awdurdodau addysg lleol eraill a'r gwasanaethau cymorth

ieuenctid. Mae'r awdurdod yn monitro ac yn cydlynu gwaith y partneriaid hyn yn dda. Mae gan bartneriaid unigol ddealltwriaeth dda o'u cryfderau a'u gwendidau eu hunain yn y gwasanaethau y maent yn eu cyflwyno.

Mae gweithio mewn partneriaeth rhwng yr awdurdod, sefydliadau addysg bellach ac uwch, cyflogwyr ac ysgolion uwchradd yn datblygu gwaith y pedwar rhwydwaith 14-19 oed yn dda. Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu'r rhwydweithiau hyn ar y cyd yn arwain y sector. Maent yn hyrwyddo cydweithredu yn llwyddiannus ac yn cael gwared ar gystadleuaeth ddiangen rhwng darparwyr. Hefyd, maent yn galluogi llywodraethwyr ysgol, y coleg, cyflogwyr a'r awdurdod i gynllunio, monitro a darparu adnoddau ar gyfer cwricwlwm 14-19 effeithiol sy'n bodloni anghenion dysgwyr yn eu clystyrau yn dda iawn. Mae cydweithredu ar draws yr awdurdod yn gwneud yn siŵr bod dysgwyr mewn ardal wledig yn elwa o ddewis eang yn y cwricwlwm.

Mae gweithio mewn partneriaeth rhwng addysg, gwasanaethau plant ac iechyd yn dda iawn. Mae cynllunio integredig, hynod effeithiol ar draws partneriaid yn cefnogi pontio hwylus i ddisgyblion ag anghenion cymhleth i addysg, ar draws cyfnodau allweddol ac o'r ysgol i wasanaethau oedolion.

Mae gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a'r awdurdod yn dda. Mae lefel uchel o ymddiriedaeth a dealltwriaeth gyffredin o'r angen i weithio ar y cyd i godi safonau a gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r flaenoriaeth strategol uchel sy'n cael ei rhoi i'r gwasanaeth addysg wedi'i hadlewyrchu yn nyraniad refeniw ac adnoddau cyfalaf yr awdurdod. Mae'r awdurdod wedi cynllunio'n effeithiol, gan leihau cyllidebau refeniw yn raddol er mwyn caniatáu i fenthyca gyfrannu at ei raglen cyfalaf mawr mewn ysgolion. Serch hynny, mae cyllidebau dirprwyedig ysgolion wedi cael eu hamddiffyn rhag gostyngiadau effeithlonrwydd yn y blynyddoedd diwethaf. Bu'r awdurdod yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid grant ar gyfer prosiectau refeniw a chyfalaf ond mae hefyd wedi cyfrannu dros hanner y buddsoddiad o £128 miliwn yn y rhaglen moderneiddio ysgolion hyd yn hyn o'i adnoddau ei hun. Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i ddod o hyd i'r cyfalaf pellach sy'n angenrheidiol i dalu ei gyfran o'r rhaglen gwerth £170 miliwn o fuddsoddi pellach hyd at 2020.

Yn y gorffennol, nid yw'r awdurdod a'i ysgolion wedi gwario digon ar waith atgyweirio a chynnal a chadw cyffredinol adeiladau ysgolion. Nid yw cynllunio ariannol presennol yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r angen i sicrhau bod adeiladau newydd ysgolion yn cael eu cynnal yn dda i'r dyfodol fel eu bod yn cadw mewn cyflwr da.

Mae balansau ysgolion wedi cynyddu yn ystod 2010-11 ac maent ymhell uwchlaw'r cyfartaledd. Fodd bynnag, mae'r awdurdod wedi cytuno ar ddull effeithiol gydag ysgolion sy'n cynnig cydbwysedd da rhwng y cymorth a'r her yn yr ysgolion hynny lle mae'r gwargedion yn rhy uchel a lle mae diffygion ariannol.

Mae gan yr awdurdod hanes da o reoli ei gyllideb addysg yn effeithiol a gwella effeithlonrwydd. Bu gostyngiadau sylweddol mewn gwariant ar leoliadau y tu allan i'r sir gan adlewyrchu darpariaeth newydd i ddisgyblion ag Anhwylderau'r Sbectrwm

Awtistig. Mae'r awdurdod wedi gweithredu'n gall trwy gynyddu ei gronfa wrth gefn mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion tua £700,000 yn 2010-2011. Bu gweithio ar y cyd ag ystod o bartneriaid yn effeithiol wrth gynyddu gallu'r awdurdod i gefnogi dysgwyr. At ei gilydd, mae gwasanaeth addysg yr awdurdod yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iwan Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Betsan O'Connor | Dirprwy Arolygydd Cofnodol |
| Liam Kealy | Arolygydd Tîm |
| Sw Roberts | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins | Arolygydd Tîm |
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Tîm |
| Huw Lloyd Jones | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Gwynne Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Alan Walters | Enwebai |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn bedair ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 6 neu 7.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 neu ôl-16**

**Dangosydd pwnc craidd** – fel uchod.

**Cymhwyster Lefel 1** – cyfwerth â TGAU gradd D i G.

**Y trothwy Lefel 1** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.

**Cymhwyster Lefel 2**– cyfwerth â TGAU gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 2** - rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.

**Y trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill cymwysterau lefel 2 mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ac mewn mathemateg fel rhan o'u trothwy.

**Cymhwyster Lefel 3**– cyfwerth â Safon Uwch gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 3** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach** yn cynnwys yr holl gymwysterau allanol a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol – er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. I gyfrifo hyn, caiff cyfanswm nifer y pwyntiau a enillir gan yr holl ddysgwyr yn y garfan ei rannu gan nifer y dysgwyr.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i gapio** yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau yn unig ar gyfer pob disgybl o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.